

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Cymunedau Difreintiedig Deprived Communities

Q11 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on progress in improving the quality of life for those living in the most deprived communities in Wales? OAQ1642(FM)

C11 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd tuag at wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru? OAQ1642(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): A total of 137 Communities First partnerships have been established in order to improve the lives of people in the most deprived communities in Wales. The interim evaluation of Communities First will shortly be published, providing evidence of the progress that is being made.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae 137 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi'u sefydlu er mwyn gwella bywydau pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Bydd gwerthusiad interim Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei gyhoeddi'n fuan, gan gyflwyno tystiolaeth o'r cynnydd a wneir.

Gwasanaethau Podiatreg (Sir Gaerfyrddin) Podiatry Services (Carmarthenshire)

Q12 Catherine Thomas: Will the First Minister make a statement on podiatry services in Carmarthenshire? OAQ1628(FM)

C12 Catherine Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau podiatreg yn sir Gaerfyrddin? OAQ1628(FM)

The First Minister: Commissioning responsibility for podiatry lies with local health boards. A draft strategy called 'Therapies for Modernisation' was published by the Welsh Assembly Government in December. It identifies the contributions of therapies, including podiatry, to the modernisation programme. Officials are analysing responses. The final document will be published in the summer.

Y Prif Weinidog: Byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau podiatreg. Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Rhagfyr, sef 'Therapiau ar gyfer Moderneiddio'. Mae hon yn nodi cyfraniad therapïau, gan gynnwys podiatreg, i'r rhaglen foderneiddio. Mae swyddogion wrthi'n dadansoddi ymatebion. Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi yn yr haf.

Tlodi ymhlith Pensiynwyr Pensioner Poverty

Q13 Peter Black: Will the First Minister make a statement on pensioner poverty in

C13 Peter Black: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dlodi ymhlith pensiynwyr yng

Wales? OAQ1648(FM)

The First Minister: Tackling poverty crosses non-devolved boundaries, but a key objective of our strategy for older people is to develop and promote policies to address poverty. Link-Age Wales, a joint Assembly Government/Department for Work and Pensions initiative, aims to maximise income and the take-up of benefits among older people. Implementation is progressing well.

Nghymru? OAQ1648(FM)

Y Prif Weinidog: Mae mynd i'r afael â thlodi yn croesi ffiniau nad ydynt wedi'u datganoli, ond un o amcanion allweddol ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn yw datblygu a hyrwyddo polisiau i fynd i'r afael â thlodi. Nod Cysyllt-Oed yng Nghymru, menter ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yw sicrhau'r incwm uchaf i bobl hŷn a sicrhau bod cymaint â phosibl ohonynt yn derbyn budd-daliadau. Mae'r broses weithredu yn gwneud cynnydd da.

Hyrwyddo Byw'n Iach Promoting Healthy Living

Q14 David Melding: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy to promote healthy living among people who suffer mental illness? OAQ1651(FM)

The First Minister: The adult mental health services national service framework outlines actions to ensure that people with mental health problems have the access and support to live healthy lives. It also requires the Assembly Government to develop a mental health promotion action plan to promote good mental health for all, including those suffering from mental illness.

C14 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo byw'n iach ymhlith pobl sy'n dioddef o salwch meddwl? OAQ1651(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yng Nghymru yn amlinellu'r camau a gymerir i sicrhau bod pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael y cyfle a'r cymorth i fyw bywydau iach. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu cynllun gweithredu i hyrwyddo iechyd meddwl da i bawb, gan gynnwys y sawl sy'n dioddef o salwch meddwl.

Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol Out-of-hours General Practitioner Services

Q15 Jenny Randerson: Will the First Minister make a statement on out-of-hours GP services in Wales? OAQ1649(FM)

The First Minister: Out-of-hours services in Wales have been commissioned by local health boards since September 2004. We expect LHBs to continue to monitor the services for their effectiveness and efficiency.

C15 Jenny Randerson: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau Meddygon Teulu y tu allan i oriau arferol yng Nghymru? OAQ1649(FM)

Y Prif Weinidog: Comisiynwyd gwasanaethau y tu allan i oriau arferol yng Nghymru gan fyrddau iechyd lleol ers mis Medi 2004. Disgwyliwn i fyrddau iechyd lleol barhau i fonitro'r gwasanaethau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn effeithlon.